

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL
CYMRU**

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

1291 128
2002 Rhif 1 (Cy. 1)

128
2002 No. 1291 (W. 1)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5
(BERWYN ROAD, LLANGOLLEN,
SIR DDINBYCH) (DILEU
CYFYNGIADAU) 2002**

**THE A5 TRUNK ROAD (BERWYN
ROAD, LLANGOLLEN,
DENBIGHSHIRE) (DE-RESTRICTION)
ORDER 2002**

Wedi'i wneud 1 Mai 2002
Yn dod i rym 10 Mai 2002

Made 1 May 2002
Coming into force 10 May 2002

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A5 Llundain – Caerdybi (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 82(2) ac 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984^(a) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1984”) a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol^(b):-

The National Assembly for Wales, as traffic authority for the A5 London - Holyhead Trunk Road (hereinafter referred to as “the trunk road”), in exercise of the powers conferred upon it by sections 82(2) and 83(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984^(a) (hereinafter referred to as “the Act of 1984”) and of all other enabling powers, and after consultation with the Chief Officer of Police for North Wales Police hereby makes the following Order^(b):-

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Mai 2002 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Berwyn Road, Llangollen, Sir Ddinbych) (Dileu Cyfyngiadau) 2002.

1. This Order shall come into force on the 10 May and may be cited as the A5 Trunk Road (Berwyn Road, Llangollen, Denbighshire) (De-Restriction) Order 2002.

^(a) 1984 p.27; diwygiwyd adran 82(2) a 83(1) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraffau 59(3) a 60(2).

^(b) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, mae'r pwerau hyn wedi'u rhoi bellach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru.

^(a) 1984 c.27; section 82(2) and 83(1) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 59(3) and 60(2).

^(b) By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, these powers are now conferred upon the National Assembly for Wales in relation to Wales.

2. (1) Cyfarwyddir bod y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn am 1170 metr o bwynt 340 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â phwynt canol y B5103 ym Merwyn (pwynt "A" ar y plan a adneuwyd) hyd at bwynt 1510 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â phwynt canol y B5103 ym Merwyn (pwynt "B" ar y plan a adneuwyd) yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf 1984.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "y plan a adneuwyd" yw'r plan a adneuwyd yn Swyddfa Bost Llangollen, Heol-y-Castell, Llangollen, Sir Ddinbych.

Llofnodwyd ar ran y Gweinidog dros yr Amgylchedd

Dyddiedig y 1 Mai 2002



D M TIMLIN
Pennaeth yr Is-adran Gweinyddu Ffyrdd
Llywodraeth Cynulliad Cymru

2. (1) It is directed that the length of the trunk road which extends for 1170 metres from a point 340 metres east of its junction with the centre-point of the B5103 at Berwyn (shown as point "A" on the deposited plan) to a point 1510 metres to the east of its junction with the centre-point of the B5103 at Berwyn (shown as point "B" on the deposited plan) shall cease to be a restricted road for the purposes of section 81 of the 1984 Act.

(2) In paragraph (1), "the deposited plan" means the plan deposited at Llangollen Post Office, Castle Street, Llangollen, Denbighshire.

Signed on behalf of the Minister for Environment

Dated the 1 May 2002



D M TIMLIN
Head of Roads Administration Division
Welsh Assembly Government